**E-lawlyfr 2**
**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**
Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 4

# *Ceidwadaeth: Ffrydiau Amrywiol*

# Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr is-raddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR UNED | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED |
|---|---|
| Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| **Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol** | **3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol** |
| Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |

**Awdur yr adnodd hwn:**

Dr. Huw Lewis

# GWYBODAETH GRAIDD

## Ffrydiau Ceidwadol Amrywiol

Y consensws ymhlith y mwyafrif o ysgolheigion yw mai ideoleg a ddatblygodd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn bennaf fel ymateb i Chwyldro Ffrainc ym 1789, yw Ceidwadaeth. Cyfeirir yn benodol at waith Edmund Burke (1729-1797), ac yn arbennig ei gyfrol enwog, *Reflections on the Revolution in France* (1790), fel yr ymgais gyntaf i gynnig amlinelliad o hanfodion y byd-olwg Ceidwadol. Yn sgil hynny, disgrifiwyd Burke yn aml fel 'tad' Ceidwadaeth. Eto i gyd, dylid gochel rhag casglu bod Ceidwadaeth yn ystod y blynyddoedd dilynol wedi bod yn syniadaeth a ddatblygodd ar hyd un llwybr penodol, gan lynu'n dynn at y dadleuon gwreiddiol a amlinellwyd gan Burke. Yn hytrach, mae Ceidwadaeth, fel pob ideoleg wleidyddol arall, wedi datblygu mewn ffyrdd amrywiol ac erbyn heddiw gellir adnabod ystod o ffrydiau gwahanol. Yma cyflwynir tair o'r rhai mwyaf arwyddocaol.

## Ceidwadaeth Awdurdodaidd

Er bod awdurdod yn thema bwysig i bob Ceidwadwr, mae'r arwyddocâd a briodolir iddo yn medru amrywio. Yn nhyb un garfan – y Ceidwadwyr Awdurdodaidd – dylai cred ym mhwysigrwydd awdurdod arwain at barodrwydd i arddel trefniadau llywodraethol awtocrataidd; hynny yw, trefniadau llywodraethol sydd ddim yn ddibynnol ar gydsyniad y bobl ac sy'n ymddiried grym i un person neu gorff ar sail ei ddoethineb, gallu a chywirdeb. Mae ffydd yn nilysrwydd y dull hwn o lywodraethu yn deillio o gred ym mhwysigrwydd trefn a'r dybiaeth na ellir ond sicrhau cydymffurfiaeth y boblogaeth trwy warantu bod grym gwleidyddol yn cael ei gronni mewn un man canolog. Roedd y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth yn un a brofodd yn ddylanwadol, yn enwedig ar dir mawr Ewrop, trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, mewn rhai mannau, bu i'w dylanwad barhau i mewn i ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Un meddyliwr gwleidyddol a gaiff ei gysylltu â Cheidwadaeth Awdurdodaidd yw'r Ffrancwr, Joseph de Maistre (1753-1821). Fel Edmund Burke, roedd de Maistre yn feirniad hallt o ddigwyddiadau'r Chwyldro yn Ffrainc. Fodd bynnag, yn wahanol i Burke, roedd de Maistre am adfer y drefn frenhinol hollbwerus a fodolai cyn y Chwyldro, a hynny heb unrhyw ddiwygiadau er mwyn gwneud y drefn honno yn fwy derbyniol i drwch y boblogaeth. Ymhelaethodd ar y dadleuon hyn yn ei gyfrol *Du Pape* (1819,) sy'n cynnig amddiffyniad o drefn hierarchaidd yr Eglwys Gatholig gyda'r Pab yn ben trwy ordinhad Duw. Yn yr un gyfrol mae de Maistre hefyd yn mynnu bod chwyldro, neu hyd yn oed newid gwleidyddol graddol ac organig, yn annerbyniol.

Gwelwyd Ceidwadwyr yn arddel rhinweddau awtocratiaeth mewn sawl rhan arall o Ewrop hefyd. Yn Rwsia, bu i'r Tsar Nicolas 1af (1796-1855) ymwrthod yn llwyr â gwerthoedd blaengar Chwyldro Ffrainc – rhyddid, cydraddoldeb a brawdgarwch – a bu i'w olynwyr wneud pob ymdrech i atal camau i gyfyngu ar eu statws unbenaethol. Yn ogystal, er yr awgrym o ymddangosiad o ddatblygiad cyfansoddiadol yn yr Almaen, fe sicrhaodd Bismarck yn ystod yr 1870au mai rheolaeth o natur awtocratig fu ar waith yno mewn gwirionedd. Yn hwyrach yn ystod yr ugeinfed ganrif, gwelwyd elitau Ceidwadol yn yr Almaen, a hefyd yn yr Eidal a Sbaen, yn gweithio i danseilio democratiaeth seneddol, gan yn hytrach hwyluso dod ag unbenaethau Ffasgaidd i bŵer. Yn wir, wrth ystyried Ceidwadaeth Awdurdodaidd, mae'n bwysig nodi'r gorgyffwrdd a geir ar brydiau â syniadau Ffasgaidd.



Joseph de Maistre (1753-1821)

Ar fwy nag un achlysur, mae Ceidwadwyr o anian awdurdodaidd hefyd wedi ceisio harneisio cefnogaeth werinol i hybu eu hachos. Llwyddwyd i wneud hyn hyd yn oed yn Ffrainc ei hun, pan lwyddodd Louis Napoleon i ennill cefnogaeth etholiadol trwy blethu awdurdodaeth ag addewid o ffyniant economaidd, cam a'i galluogodd, maes o law, i benodi ei hun yn Ymerawdwr. Tebyg hefyd, ond yn fwy diweddar, fu apêl y traddodiad Peronistaidd yn yr Ariannin rhwng 1946 a 1955. Mudiad poblyddol oedd hwn a lwyddodd i sicrhau cefnogaeth o blith y werin dlawd, ond ar sail rhaglen wleidyddol a bwysleisiai ufudd-dod, trefn, ac undod cenedlaethol. Gellir gweld elfennau o'r traddodiad hwn yn parhau mewn rhai rhannau o'r byd heddiw, megis yn y Dwyrain Canol a rhai o wledydd Affrica, ond heb y cysylltiadau mwy 'Ffasgaidd' Ewropeaidd.

## Ceidwadaeth Draddodiadol

Er bod amryw o Geidwadwyr cyfandirol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi mabwysiadu agweddau a nodweddwyd gan wrthwynebiad digyfaddawd i newid gwleidyddol neu gymdeithasol o unrhyw fath, gwelwyd traddodiad Ceidwadol mwy cymedrol, ac yn y pendraw, mwy llwyddiannus yn etholiadol, yn datblygu o fewn cylchoedd Eingl-Americanaidd. I raddau helaeth roedd y traddodiad hwn yn un a oedd yn fwy cydnaws â'r syniadau gwreiddiol a gafodd eu hamlinellu gan Edmund Burke.


Yr hyn a oedd wedi peri pryder mawr i Burke wrth ddilyn datblygiadau'r Chwyldro yn Ffrainc oedd y modd cwbl ddisymwth yr aethpwyd ati i ddymchwel y drefn frenhinol a fu'n weithredol am ganrifoedd a cheisio adeiladu trefn gwbl newydd yn ei le. Roedd hyn yn gam peryglus iawn yn ei dyb ef, fel y datganodd yn y dyfyniad enwog canlynol:

> '*It is with infinite caution that any man ought to venture upon pulling down an edifice which has answered in any tolerable degree for ages the common purpose of society*'
> (Burke, *Reflections on the revolution in France, 1790*, tud 152).

Credai Burke fod sefydliadau neu arferion traddodiadol sydd wedi llwyddo i oroesi dros gyfnod hir – er enghraifft, yn achos Ffrainc, brenhiniaeth – yn bethau y dylid eu parchu ac y dylid ymdrechu i'w cynnal. Mynnodd fod traddodiadau o'r fath, trwy oroesi, wedi profi eu bod yn meddu ar werth cynhenid a'u bod wedi dod i ymgorffori gwybodaeth a doethineb hanesyddol pwysig na ddylid eu dibrisio.

Fodd bynnag, tra oedd Burke yn gryf o'r farn bod angen parchu sefydliadau neu arferion traddodiadol, nid oedd o'r farn y dylid gwrthwynebu newid gwleidyddol a chymdeithasol ar bob cyfrif. Yn hytrach, roedd newid gofalus a threfnus yn dderbyniol. Yn wir, dadleuodd bod newid o'r math hwn yn angenrheidiol er mwyn i gymdeithas a'i harferion a'i sefydliadau traddodiadol fedru goroesi:

‘*A state without the means of some change is without the means of its conservation*’
(Burke, *Reflections on the Revolution in France, 1790*, tud 285).



Edmund Burke (1729-1797)

Felly, newid graddol er mwyn cynnal y traddodiadol oedd yr hyn a ffafriwyd gan Burke, a dyma’r math o dybiaethau a welir yn amlygu eu hunain yn syniadau’r garfan o Geidwadwyr a ddilynodd ef yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna’r ugeinfed ganrif. Dyma garfan niferus a gaiff ei disgrifio’n aml fel y Ceidwadwyr Traddodiadol. Label arall a ddefnyddir o bryd i’w gilydd ar gyfer y garfan hon yw’r Ceidwadwyr Tadofalaethol. O fewn y traddodiad cyffredinol hwn gellir adnabod dwy is-garfan Ceidwadol arwyddocaol: y cyntaf yn fynegiant Prydeinig o Geidwadaeth Draddodiadol a’r ail yn fynegiant Ewropeaidd mwy diweddar.

**Ceidwadaeth Un Genedl** yw’r label a roddir ar draddodiad Ceidwadol penodol a ddatblygodd ym Mhrydain yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ffigwr allweddol i’w ddatblygiad oedd Benjamin Disraeli. Fel gwleidydd yr adnabyddir Disraeli’n bennaf – bu’n Brif Weinidog ym 1868 ac unwaith eto rhwng 1874 a 1880 – ond roedd yn nofelydd nodedig hefyd a gwelwyd amryw o’i syniadau gwleidyddol yn cael eu mynegi’n wreiddiol mewn nofelau megis *Sybil* (1845) a *Conigsby* (1844). Roedd rhain yn weithiau a gwestiynai unigolyddiaeth y cyfnod, ynghyd â’r anghydraddoldeb cymdeithasol oedd wedi deillio o ddatblygiad y gymdeithas ddiwydiannol fodern. Gwelai Disraeli fod peryg i hollt ddifrifol ddatblygu rhwng y tlawd a’r cyfoethog ac y gallai hyn arwain at chwyldroadau dinistriol, fel y gwelwyd eisoes mewn rhannau eraill o Ewrop. Er mwyn osgoi hyn a chynnal ymdeimlad o undod cenedlaethol ym Mhrydain, dadleuodd fod angen i arweinwyr y cyfnod gyflwyno cyfres o ddiwygiadau gwleidyddol a chymdeithasol.

Fel Burke o’i flaen, roedd Disraeli’n gryf o’r farn fod elfen o anghydraddoldeb yn anochel o fewn unrhyw gymdeithas, ond credai y dylid defnyddio grym y wladwriaeth mewn modd pwyllog a gofalus er mwyn lleddfu ei effeithiau mwyaf garw. Byddai cymryd camau o’r fath yn ddoeth o safbwynt aelodau mwyaf breintiedig cymdeithas: byddai’n lleihau’r peryg o chwyldro ac o ansefydlogrwydd a fyddai’n medru peryglu eu statws, eu cyfoeth a’u heiddo. Ar yr un pryd, mynnodd Disraeli bod dyletswydd foesol ar y breintiedig i gytuno i ddiwygiadau cymdeithasol, gan fod eu statws a’u cyfoeth eithriadol yn esgor ar gyfrifoldeb i estyn llaw ‘dadofalaethol’ i gefnogi a chynorthwyo’r sawl oedd yn dlawd a llai ffodus. Yn ystod ei yrfa wleidyddol llwyddodd Disraeli i droi’r dadleuon hyn yn weithredu ymarferol. Ef oedd yn gyfrifol am gyflwyno’r ‘Ail Ddeddf Ddiwygio’ ym 1867, y mesur arweiniodd at estyn yr hawl i bleidleisio i aelodau’r dosbarth gweithiol am y tro cyntaf. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am ystod o ddiwygiadau cymdeithasol a gyfrannodd at wella amodau tai a iechyd y dosbarth gweithiol.



Benjamin Disraeli (1804-1881)

Cafodd dadleuon Disraeli ddylanwad ar nifer o geidwadwyr Prydeinig diweddarach. Er enghraifft, yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wrth i drefniadau democrataidd ennill tir ar raddfa gyflym, rhybuddiodd Randolph Churchill fod angen gweithio i sicrhau cefnogaeth gymdeithasol eang i hen sefydliadau traddodiadol megis y Frenhiniaeth, Tŷ'r Arglwyddi a'r Eglwys Anglicanaidd. Mynnodd y gellid cyflawni hyn trwy ddenu aelodau'r dosbarth gweithiol at y Blaid Geidwadol wrth barhau â pholisi Disraeli o ddiwygio cymdeithasol gofalus.

Tybir hefyd fod y meddylfryd 'Un Genedl' wedi bod yn ganolog i raglenni llywodraethau Ceidwadol Harold Macmillan (1957-1963) ac, i raddau llai, Edward Heath (1970-1974). Er enghraifft, gwelir ei ddylanwad wrth ystyried y modd pragmataidd y bu i'r llywodraethau hyn geisio llywio'r economi, gan gyfuno dyhead i hybu menter breifat ymhlith unigolion gyda pharodrwydd i gydnabod ei bod yn briodol i'r wladwriaeth reoli a rheoleiddio rhai sectorau economaidd arwyddocaol, megis y diwydiannau dur a glo. Yn fwy diweddar, awgrymwyd bod David Cameron hefyd wedi bod yn wleidydd a oedd, mewn rhai ffyrdd, yn gogwyddo tuag at y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth bragmataidd a graddol.

**Democratiaeth Gristnogol** yw'r enw a roddir ar ffurf debyg ar Geidwadaeth a welwyd yn magu gwreiddiau ar gyfandir Ewrop yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Y catalydd ar gyfer hyn fu cwymp y Natsïaid yn yr Almaen ac yn sgil hynny ddirywiad y duedd awdurdodaidd a fu mor gryf o fewn cylchoedd adain dde Ewropeaidd yn ystod y degawdau blaenorol. Sefydlwyd cyfres o bleidiau Democrataidd Cristnogol mewn gwledydd megis yr Almaen, Awstria, yr Iseldiroedd a'r Swistir yn ystod y 1950au a'r 1960au ac fel yn achos y Ceidwadwyr Un Genedl ym Mhrydain roedd arweinwyr y pleidiau hyn, er enghraifft Helmut Kohl, Canghellor yr Almaen rhwng 1983 a 1998, yn credu y dylid caniatáu i'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd cymdeithasol ac economaidd cyhyd ag y bo achos pragmataidd o blaid hynny a bod modd cyflwyno unrhyw ddiwygiadau mewn modd graddol.

Mae'n bosib mai'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddwy ffurf yma ar Geidwadaeth Draddodiadol yw'r modd y mae athrawiaeth gymdeithasol Gatholig, gyda'i phwyslais ar grwpiau yn hytrach na'r unigolyn, wedi cael dylanwad mawr ar esblygiad Democratiaeth Gristnogol. Elfen bwysig arall yw'r pwyslais a rydd Democratiaeth Gristnogol ar y syniad o 'bartneriaeth gymdeithasol' a'r angen i sicrhau bod ystod o sefydliadau 'canolradd' – er enghraifft undebau, grwpiau busnes, eglwysi – yn medru cyfrannu at brosesau polisi a phenderfynu. Ymhellach, yn hytrach na rhoi pwyslais ar y 'genedl' fel yr uned wleidyddol fwyaf allweddol, mae Democratiaid Cristnogol wedi tueddu i gofleidio egwyddor cyfrifolaeth (subsidiarity), sef y dylai penderfyniadau gael eu gwneud gan y sefydliad perthnasol lleiaf. Mae hyn hefyd wedi arwain at barodrwydd i fod yn gyfforddus â threfniadau llywodraethol ffederal neu ddatganoledig, megis trefn y 'Lander' yn yr Almaen.

## Y Dde Newydd

Yn ystod y blynyddoedd ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, y meddylfryd graddol, pragmataidd a thadofalaethol sy'n nodweddu'r ffrwd Draddodiadola a drafodwyd uchod oedd yn hawlio cefnogaeth y mwyafrif o Geidwadwyr. I raddau helaeth, roedd hyn yn deillio o'r ffaith fod Ceidwadaeth Draddodiadol wedi dangos ei bod yn medru cyfaddawdu a dod i dderbyn ystod o newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol pwysig: i ddechrau, y don o syniadau democrataidd a fu'n ennill tir yn gyson trwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac yna'n ddiweddarach y pwyslais cynyddol a roddwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif ar yr angen i'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd polisi cymdeithasol ac economaidd. Yn wir, erbyn y 1950au dadleuodd amryw o sylwebwyr gwleidyddol fod rhyw fath o gonsensws i'w weld yn datblygu ar y tir canol gwleidyddol – consensws a oedd yn cwmpasu nifer helaeth o Geidwadwyr Traddodiadol, ynghyd ag amryw o Ryddfrydwyr Cymdeithasol a hefyd Sosialwyr Democrataidd. Cyfeirir yn aml at hwn fel 'y consensws Keynesaidd', gan fod y sawl a berthynai iddo yn tueddu i dderbyn rhai o ddaliadau sylfaenol y economegydd John Maynard Keynes, ynglŷn â'r angen am drefniadau cymdeithasol ac economaidd a oedd yn cydnabod rôl allweddol y wladwriaeth.

Fodd bynnag, yn ystod y 1970au chwalwyd y consensws hwn gan symudiad gwleidyddol newydd a gaiff ei adnabod bellach fel 'Y Dde Newydd'. Gan fod hwn yn symudiad a welwyd yn datblygu ar dde'r sbectrwm gwleidyddol fe dueddir felly i drin y Dde Newydd fel ffrwd o syniadau sy'n perthyn i Geidwadaeth. Fodd bynnag, mae angen cydnabod nad un corff trefnus o syniadau cydlynol a gaiff eu dwyn ynghyd o dan label y Dde Newydd. Yn hytrach gellir ei ddehongli fel traddodiad sy'n cwmpasu dwy gangen sy'n tynnu ar syniadau sy'n deillio o ddwy ffynhonnell wahanol:

**Y Dde Newydd neoryddfrydol**: Mae dadleuon y gangen hon yn seiliedig ar syniadau economaidd y Rhyddfrydol Clasurol, ac yn benodol syniadau meddylwyr megis Adam Smith ynglŷn â'r angen i hybu marchnadoedd cwbl rydd trwy gyfyngu ar ymyrraeth y wladwriaeth. Rhoddwyd sylw o'r newydd i syniadau fel hyn yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif wrth i rôl economaidd a chymdeithasol y wladwriaeth dyfu'n gyson. Yn wir, erbyn y 1970au tybiwyd mai'r ymyrraeth wladwriaethol hon a fu'n bennaf gyfrifol am yr arafu economaidd mawr a welwyd ar draws gwledydd y gorllewin. Dadleuodd economegwyr megis Friedrich Hayek a Milton Friedman fod problemau megis diweithdra yn anorfod. Roedd ceisio anwybyddu'r realiti hwnnw, neu geisio'i atal trwy ymyrraeth artiffisial gan y wladwriaeth, yn y pendraw yn creu mwy o broblemau ac nid llai. Roedd yn creu chwyddiant – y bygythiad mwyaf i bob economi, gan ei fod yn arwain at ostwng gwerth arian, ac yn cymell cyfnodau o farweidd-dra llwyr.

Ymateb Hayek a Friedman, ynghyd ag athronwyr gwleidyddol megis Robert Nozik, oedd bod angen ymwrthod â chonsensws Keynesaidd y 1950au a'r 1960au ac yn ei le mabwysiadu rhaglen wleidyddol radical a fyddai'n arwain at 'wthio'r wladwriaeth yn ôl', gan adael mwy o ofod ar gyfer menter breifat. O ran gweithredu ymarferol, arweiniodd hyn at bwyslais ar breifateiddio gwasanaethau a diwydiannau 'aneffeithiol' a fu gynt yn rhan o'r sector cyhoeddus, ac felly o dan reolaeth y wladwriaeth, a hefyd pwyslais ar 'ddiwygio' gwahanol raglenni lles er mwyn torri ar lefel gwariant cyhoeddus.



Friedrich von Hayek (1899-1992)

**Y Dde Newydd neogeidwadol**: Mae'r dadleuon a gysylltir â'r gangen hon yn tueddu i ategu'r pwyslais neoryddfrydol ar sicrhau bod angen cyfyngu'n sylweddol ar ymyrraeth economaidd y wladwriaeth. Ar yr un pryd mae'r adain neogeidwadol hefyd yn canolbwyntio ar faterion cymdeithasol ychwanegol ac wrth wneud hynny yn adeiladu ar syniadau Ceidwadol ynglŷn â phwysigrwydd trefn, awdurdod a disgyblaeth – syniadau y gellir eu holrhain yn ôl i rai o'r Ceidwadwyr Awdurdodaidd a fu'n weithredol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhoddwyd sylw o'r newydd i'r math yma o syniadau yn sgil y dybiaeth bod rhai o'r diwygiadau cymdeithasol rhyddfrydol a gyflwynwyd ar draws gwledydd gorllewinol yn ystod y 1960au, er enghraifft cyfreithloni ysgaru ac erthylu, diddymu'r gosb eithaf, llacio rheolau ar sensoriaeth a hefyd cydnabod amrywiaeth trwy bolisïau ar amlddiwylliannedd, wedi tanseilio ymdeimlad o sefydlogrwydd a dyletswydd gymdeithasol. Yn sgil hynny, mynnwyd y bu dirywiad difrifol mewn cyfraith a threfn a hefyd mewn moesoldeb cyhoeddus.

Bu'r agenda neogeidwadol yma yn un arbennig o flaenllaw yn yr Unol Daleithiau ers y 1970au. Ffigwr allweddol yn y datblygiad hwn oedd y sylwebydd cymdeithasol Irving Crystol. Cynigiodd Crystol feirniadaeth hallt o unigolyddiaeth a goddefgarwch ryddfrydol y 1960au a dadleuodd o blaid yr angen i ailsefydlu 'safonau' a oedd yn adlewyrchu gwerthoedd y 'mwyafrif moesol'. Roedd hyn yn cynnwys mynnu y dylid rhoi pwyslais o'r newydd ar rinweddau'r teulu traddodiadol a beirniadu'r duedd i gofleidio ffyrdd newydd o drefnu bywyd domestig; beirniadu'n hallt y duedd i arddel agweddau mwy goddefgar ar faterion megis rhyw a rhywioldeb; galw am ail-gyflwyno cosbau troseddol llymach, gan gynnwys mewn perthynas â man-droseddau; a gwrthwynebu mewnfudo a datblygiad cymdeithasau amlddiwylliannol ac aml-ethnig. Yn aml, roedd dadleuon o'r fath yn cael eu mynegi gan gyfeirio yn ôl at orffennol euraidd mwy trefnus a llewyrchus lle roedd pobl yn byw bywydau mwy disgybledig. Er enghraifft ym Mhrydain byddai lladmeryddion dadleuon o'r fath yn aml yn sôn am yr angen i ail-sefydlu gwerthoedd 'Fictorianaidd'.



Irving Crystol (1920-2009)

At ei gilydd, mae'r Dde Newydd yn gorff digon brith o syniadau gwleidyddol sy'n ceisio cyfuno math penodol o ryddfrydiaeth economaidd ag ymagwedd geidwadol awdurdodaidd wrth drafod materion cymdeithasol. Yn hynny o beth, mae'n gorff o syniadau sy'n cyfuno elfennau radical, adweithiol a thraddodiadol oll gyda'i gilydd. Heb amheuaeth, profodd y syniadau hyn yn arbennig o ddylanwadol yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Rhoddwyd y mynegiant mwyaf amlwg iddynt yn ystod y 1980au ar ffurf Thatcheriaeth yn y Deyrnas Unedig a Reaganiaeth yn yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag nid dim ond ffenomen a brofodd yn ddylanwadol yn y lleoliadau hyn yn unig oedd y Dde Newydd. Bu iddo hefyd adael ei ôl ar wleidyddiaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, Awstralia a Seland Newydd.

Er gwaethaf y dylanwad hwn, dylid nodi bod y Dde Newydd yn draddodiad sydd, yn y pendraw, yn seiliedig ar wrthgyferbyniad pwysig rhwng ei ganghennau neoryddfrydol a neogeidwadol. Tra bo'r naill yn pwysleisio'r angen i'r wladwriaeth gamu yn ôl a gadael i unigolion reoli eu materion (economaidd) eu hunain, mae'r llall yn galw ar y wladwriaeth i wneud mwy i oruchwylio a rheoleiddio ein hymddygiad cymdeithasol, gan gynnig arweiniad (moesol) eglur. Mae rhai wedi dadlau bod hwn yn densiwn sylfaenol sy'n tanseilio'r graddau y gellir dehongli'r Dde Newydd fel un corff o syniadau. Fodd bynnag, os oes rhaid meddwl am y Dde Newydd fel un ffrwd Geidwadol, yna mae'n bosib mai'r ffordd orau o wneud hynny yw trwy feddwl am y sawl sy'n arddel y syniadau hyn fel pobl sy'n credu mewn gwladwriaeth gyfyngedig ond eto un gref, neu fel y noda Andrew Gamble, pobl sy'n credu '*in the free economy and the strong state*'.